

Rhifyn
Gofid y
Cofid

Wilia Bach

RHIF 425 MAI 2020
AM DDIM!

PAPUR MISOL CYMRAEG
ABERTAWE

Ar ffurf PDF, yn unig y bydd WILIA tra bydd yr **ysgolion a'r cymdeithasau sy'n ei** ddsbarthu fel arfer wedi gorfod cau eu drysau.

Y tu mewn:

2: Marw'r Athro

Steve Edwards
3: Dean Baker yn ifanc
3: Treheli
3: Lôn Goed Townhill
4: Cymorth Cristnogol ar-lein
4: Marw Gerallt Davies

5 Gair o'r Ariannin

6 Dathlu gydag Eddir Butler
6 Pos Stulun Abertawe
6 Rysait tywydd twym
7: Neges Ewyllys **Da'r Urdd**
7 Hysbysebion a digwyddiadau

DAL ATI YNGHANOL GOFID-19

Bu mis Ebrill yn fis o addasu i'r Fenter, fel y bu i bawb. Hoffem anfon ein cofion at holl aelodau cymuned Tŷ Tawe a'r Fenter, gan obeithio eich

HELP I'R BANC BWYD



Mae Menter Iaith Abertawe a Thŷ Tawe wedi estyn llaw cymorth i fanc bwyd lleol yn Abertawe. Trosglwyddwyd holl stoc diodydd meddal bar Tŷ Tawe i fanc bwyd yn nwyrain



bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel. Disgwylwch ymlaen at weld pawb pan ail-agorir drysau'r Ganolfan ac wrth i ni ail-gymryd a'n gweithgareddau arferol ledled y Sir.

Mae Canolfan Tŷ Tawe, Siop Tŷ Tawe a Swyddfa'r Fenter ar gau tan i'r sefyllfa newid, ond mae staff y Fenter yn gweithio o gartre'. Os hoffech siarad gyda ni, am fater mawr neu fach – ynghylch ein gwaith dros yr iaith neu jest am sgwrs yn y Gymraeg

Abertawe. Mae'r banc bwyd hwn yn paratoi 850 o becynnau bwyd prydau ysgol am ddim y dydd ar hyn o bryd, ac mae'r galw am wasanaeth y banc bwyd wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod cyfnod COVID-19.

Rhian Jones a Catrin Rowlands, sef dwy o gyfarwyddwyr y Fenter/Tŷ Tawe awgrymodd drosglwyddo'r stoc i'r banc bwyd yn San Tomos a

hwythau ddsbarthodd y pecynnau. Derbyniwyd y rhodd gyda diolch gan y gwirfoddolwyr yno.

Braf oedd gallu cefnogi a chyfrannu'r stoc gan wybod y daw cyfle maes o law i ail-lenwi'r oergelloedd yn Nhŷ Tawe mewn da bryd ar gyfer y parti mawr pan fydd yn ail-agor ac ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol.

– codwch y ffôn a rhowch alwad ar 07546272364.

Cafwyd tipyn o sbort wrth barhau â nifer o'n weithgareddau ar ffurf rithwir ar-lein. Mae'r Siop Siarad yn cwrdd o hyd bob bore Sadwrn trwy gyfarfodydd tele-fideo, gyda "Sgwrs 'da Siaradog" yn cynnig cyfle tebyg bob brynhawn Mercher. Braf yw gweld cyfeillion hen a newydd, o Abertawe, siroedd cyfagos a hyd yn oed Unol Daleithiau America yn ymuno i dynnu sgwrs. (Yn achos y Siop Siarad bu hyd yn oed i ambell seren y byd cyfryngau Cymraeg ymddangos, er credir rhai mai enghraifft o "zoom bomio" oedd y rhain!). Cafwyd hefyd arbrawf – llwyddiannus – ar gynnal sesiwn werin ar-lein, gyda bron i 30 yn ymuno i wrando a chyfrannu!

Fel ag o'r blaen, mae'r Fenter yn darparu adnoddau dysgu ac adloniant i blant. Os ydych chi'n chwilio am gemau a gweithgareddau Cymraeg i'r plant tra bo'r ysgolion ar gau, dilynwch ein tudalen ar Facebook ac ychwanegwch Carys Menter Iaith Abertawe ac Anys Menter Iaith Abertawe fel ffrindiau. Cewch ymuno yn sesiwn fyw o Ganu gyda Babis bob dydd Iau, tynnu ysbrydoliaeth o'n canllawiau ar greu capsawl amser neu argraffu ein patrymau i'w lliwio.

Hoffem ddiolch hefyd i'n cyfranwyr Flogiau – o ryseitiau coginio cegin cwarantîn i awgrymiadau ac adolygiadau o raglenni teledu a cherddoriaeth. Dyma gyfle i fwynhau goreuon ein cyfryngau Parhad ar dudalen 5

'We are here
to help'
'Rydyn ni yma
i helpu'



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

Rebecca Evans AM/AC

Assembly Member for Gower/
Aelod Cynulliad dros Gŵyr
rebecca.evans@assembly.wales
www.rebeccaevansam.com
01792 899 081



Julie James AM/AC

Assembly Member for
Swansea West/Aelod Cynulliad
dros Gorllewin Abertawe
julie.james@assembly.wales
www.juliejamesam.co.uk
01792 460 836



Mike Hedges AM/AC

Assembly Member for
Swansea East/Aelod Cynulliad
dros Deyrain Abertawe
mike.hedges@assembly.wales
www.mikehedges.org.uk
01792 790 621



Colli Steve

Gyda chalon drom rydym yn rhannu newyddion trist. Bu farw Steven Edwards, cyfaill annwyl, ar fore Mercher



yr 22ain o Ebrill. Mi ymddangosodd y cancr yn sydyn gan gymryd Steve yn rhy **gynnar o lawer. Yn gyfaill i Ganolfan Tŷ Tawe**, yn aelod o gymuned Gymraeg Abertawe ac yn ffrind hoffus i nifer lawer, mi fydd colled fawr ar ei ôl.

Roedd yr Athro Steven Edwards yn frodor o Salford, Manceinion, a chafodd hyfforddiant fel Nyrs Seiciatig. Aeth wedyn i astudio athroniaeth ym mhrifysgol Manceinion. Daeth i Brifysgol Abertawe yn 1995, yn rhan **o'r tîm Athroniaeth** a Moeseg mewn Gofal Iechyd ac ymchwiliodd yn y maes yma. .

Cyhoeddodd yn helaeth ar faterion moesegol ond ymddiddorodd hefyd mewn astudiaethau athronyddol yng Nghymru, a chyhoeddwyd erthygl ganddo yn *Gwerddon* yn 2016, yn ymwneud â chynnwys *Efrydiau*



Athronyddol, gyda sylw arbennig i syniadau J.R.Jones ar berthynas tir ac iaith.

Ymysg ei gyrsiau dysgu yn y Brifysgol yn Abertawe roedd Gweithio yn y Gymraeg mewn lleoliadau **Gofal Iechyd a'r Gymraeg** yn y Gweithle.

Dysgodd Steve yr iaith yn **Nhŷ Tawe** cyn iddo ddod yn diwtor Cymraeg ei hun. Yn ddiweddarach, wedi iddo ymddeol fel Athro Athroniaeth ym Mhrifysgol Abertawe, mi ddechreuodd wirfoddoli yn **Siop Tŷ Tawe** gan ail-gydio mewn tiwtora i

Ddysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe.

Llwyddodd i ennill BA yn y Gymraeg ym Mhrifysgol Cymru, y Drindod Dewis Sant.

Daeth ei wyneb yn gyfarwydd i lawer eto wrth iddo wasanaethu tu ôl y cownter ac yn y Siop Siarad yn ei fodd amyneddgar, pwylllog. Er na **fyddai'n un i frolio, roedd Steve yn ddyrn o amryu** ddoniau – yn gerddor pync ym Manceinion yr 80au ac yn arbenigwr academiaidd ym moesoldeb meddygol.

Roedd ei gariad at yr iaith ynghlwm â'i

ddealltwriaeth o athroniaeth J. R. Jones **a'i werthfawrogiad o** lenyddiaeth Kate Roberts. Ond mi gofiwn **ef yn bennaf 'oll fel dyn** hoffus, caredig, oedd wastod yn barod i wrando ac i gynnig **cymorth. Cofiw'n ef a'i** rinweddau yn arbennig yn ystod y cyfnod caled

hwn. Anodd iawn fydd ail-**agor drysau Tŷ Tawe** wedi'r argyfwng heb ei gwmi'n hael.

Anfonwn ein cydymdeimlad llwyraf i'w wraig Jane a'r teulu yn eu profedigaeth.



COEDEN GEIRIOS

Roedd coed ceirios Abertawe yn eu blodau ym mis Ebrill, **Dyma un o'r goreuon, ger cartref** hen bobl yn ymyl Gorsaf y Stryd Fawr.

SIOP SIARAD Tŷ Tawe
AR-LEIN

Mae'r Siop Siarad yn cwrdd â hyd - trwy teleffôn!

PRYD?
10.30yb Sab Dydd Sadwrn

I BWY?
I ddysgwyr o siaradwyr rhugl!

SUT?
Ewch i <https://meet.jit.si/SiopSiaradTyTawe> yn eich parwr (web browser)!

Dawch â dishgled!

mentel iaith abertawe

01493 600011 0447822
siopsiaptawe.co.uk

Siop Siarad Ty Tawe 7 13:41

Diolch i bawb am ymuno!

mentel iaith abertawe

Wilia Bach

yng ngofal Heini Gruffudd

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr.

Daliwch i anfon, bydd rhifyn eto'n fuan:

beth am anfon eich atgofion, sut rydych

chi'n ymdopi â hunanynysu ac unrhyw

beth arall o ddiddordeb?

Deunydd i'r rhifyn nesaf erbyn Mai 25.

Y rhifyn yng ngofal Marc Stonelake

wilia@hotmail.co.uk



Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

Golwg yn ôl: eitem Chwefror/Mawrth 1996

TUDALEN
Y
DYSGWYR

Portread o Swyddog
Cyswllt C.Y.D. yng
Ngorllewin
Morgannwg
- Dean Baker



Un o hie dych chi yn wriddiol?
Un o'r Coed Duon
[Blackwood] yng Ngwent yw
f'n wriddiol, ond bellach yn
byw yng Nghwm Du,
Abertawe.

Pam symadoch chi i fyw i
Abertawe?

Symudais i fan hyn i
astudio Cymraeg a Ffrangeg yn
y Brifysgol ym mis Hydref
1991. Dw i yma nawr ers
rhyw bum mlynedd. Graiddais
i 'y haf diwethaf. Erbyn hyn
dw'n gwneud ymchwil rhan
amser (M.Phil.) yn yr Adran
Gymraeg i hanes teledu
annibynnol yng Nghymru.

Fryd dochrnoch chi fel
Swyddog Cyswllt C.Y.D. a beth
yw'ch dyletswyddau?

Dechreuais i fis
diwethaf. Yn y bon, byddai f'n
ymweld â phob cangen o
C.Y.D. yng Ngorllewin
Morgannwg fel fy mod f'n gallu
sicrhau eu bod nhw'n cael eu

rheolig yn effithiol ac yn
gyson a hefyd i gyflwynu
ymdrechion y gwaithol
ganhennau. Hoffwn i ehangu
ar y cyfleoedd sy gan ddygwyr y
Sir i ddefnyddio'r Gymraeg
trwy greu clybiau Cymraeg yn
y gweithle, er enghraifft, a
sefydlu canghennau newydd o
C.Y.D., a thrwy ddenu rhagor
o bobl i'r clybiau sy gyda n'n
basod, wrth gwrs. Dw i'n
crofu bod h'n bwysig iawn fod
dygwyr yn cael blas ar y
Gymraeg mewn sefyllfaoedd
cymdeithasol yn ogystal i'r
dodbarthiadau.

Mae gyda chi hen ddiogen o
waith i'w wneud felly. Ond,
beth dych chi'n hoffi wneud
pau nad dych chi'n gweithio?
Beth yw'ch diddordebau chi?

Wel, mae cenddoriacth
yn chwarae rhan bwysig yn fy
mywyd, ac nid gwrando am
h'n unig y byddai f'n ei wneud.

Mae diddordeb mawr gyda fi
mewn hanes cenddoriacth, yn
enwedig ers y pumdegau.
Hefyd, byddai f'n chwarae'r
drymiau i sawl grŵp yn Ne
Cymru, o bryd i'r gilydd. Mae
gyda fi ddiwy 'gig' ar y gweill ar
lyn o bryd - un ym Mhen y
Bont ar Ogwr (Bridgend), er
cof am fachgen a laddodd ei
hunas ac un arall yn Llanidloes
yn cefnogi Hugh Cornwell
ymt o'r grŵp enwog 'The
Stranglers'.

Oes gyda chi diddordebau
eraill, heblaw am gerddoriaeth?

Oes. Byddai f'n ceisio
cefnogi gweithgareddau
Cymraeg yn yr ardal. Byddai f'n
gweithio tu ôl i far Ty Tawe,
gwylto'r gman rhyngwladol
yno ac yn mynychu
digwyddiadau Cymraeg a
gynhelir o gwmpas y ddinas.

Beth yw'ch gobeithion ar gyfer y
dyfodol?


Hoffwn i wneud swydd
C.Y.D. cystal ag y galla i ac ar
yr un pryd cael fy ngradd
M.Phil., ac wedyn dw i'n
gobeithio mynd i'r cyfryngau.
Hoffwn i weld Cymru'n ennill
y Camp Lawn hefyd - ond mae
gan hwb ei breuddwydion
fôl!

O'r hoflech chi gael
rhagor o wybodaeth am
weithgareddau C.Y.D., neu
sefydlu cangen newydd hyd yn
oed, ffonwch -
Dean Baker - (01792) 586388

Geirfa:
ymchwil - research
cyflwynu - co-ordinate
annibynnol - independent
sefydlu - establish
dyletswyddau - duties
sefyllfaoedd - situation(s)
cangen/canghennau - branch/
branches
yn ogystal â - as well as
cenddoriacth - music
ar y gweill - on the go
er cof am - in memory of
Y Camp Lawn- The Grand
Slam

SESIWN O'R
CARTREF

Diolch i bawb a ymunodd yn yr
arbrawf o sesiwn nos Wener!
Canu persain a chwmni da! Yn
dilyn y llwyddiant gobeithiwn
gael sesiwn ar-lein eto cyn bo
hir. Dyma'r golwg o stafell fyw
Masant! Pwy sydd ar y teli
dwed?



Treheli gan Mared Lewis –
Barn Cylch Trafod Llyfrau Tŷ Tawe

Marciau: yn amrywio rhwng 5 a 9, gyda'r rhan fwyaf yn
rhoi 6 i 7 marc

“Wedi mwynhau'n fawr – disgrifiadau hyfryd; mae gan yr
awdur ddawn i greu darlun o bethau.”

“Wedi mwynhau ar ôl ailddarllen tipyn. Roedd llawer o
enwau i'w cofio a'r penodau heb fod yn agos at ei gilydd
er mwyn cofio pwy oedd pwy.”

“Roedd cwestiynau gyda fi ar y diwedd; heb ddeall yn
iawn beth ddigwyddodd. Ond yn gyffredinol, wedi
mwynhau.”

“Mae'r cymeriadau'n dda iawn. Ond heb gael blas ar y
stori.”

“Ddim yn siŵr am y bobl oedd yn byw yn Nhrefeli – dy'n
nhw ddim fel pobl arferol.”

“Ar y cyfan, wedi mwynhau, ond yn araf dros ben.

Gwellodd pethau tua hanner ffordd ond yn y penodau
olaf, roedd hi'n anodd penderfynu beth ddigwyddodd.”

“Wedi mwynhau'r dechrau, ond wedi colli diddordeb tua'r
canol/diwedd.”

“Llawer o themâu pwysig yn cael eu trafod yma –
dementia, colli plentyn, 'proowler', godineb, bwllian.”

“Wedi mwynhau'n enfawr, er bod yr ysgrifennu'n rhy
ymdrechgar weithiau. Yn weledol iawn – byddai'n
gwneud ffilm dda.”

“Wedi darllen hon ddwywaith. Mae'r ysgrifennu'n dda
ond does gan yr awdur ddim i'w ddweud mewn
gwirionedd. Yn gweld bod yr awdur wedi gwneud cwrs
ysgrifennu creadigol – mae'r ysgrifennu'n haeddu
gradd ar gwrs fekk ond wn i ddim a oes ganddi
weledigaeth.”

“Cymysgld – tua hanner ffordd drwyddo collais
ddiddordeb. Roedd dirgelwch ar y dechrau a hwnnw'n
cael ei ddatgelu'n raddol. Mae dawn cymeriadau yma –
do'n i ddim yn hoffi Rita o'r dechrau!”

“Mae bywydau pawb ar chwâl.”

“Mae'n amlwg mai Treheli yw'r unig dref yng Nghymru
heb CCTV, neu basen nhw wedi dod o hyd i'r un a oedd
yn prowlan!”

“Dydw i ddim yn teimlo ein bod yn llwyddo i fynd dan
groen un cymeriad mewn gwirionedd a doedwn i ddim
wir yn llwyddo i deimlo naws Treheli ychwaith.”

“Roedd pob pennod fel stori fer, a gyda'i gilydd doedden
nhw ddim yn creu nofel yr oedd rhywun yn edrych ymlaen
at droi'n ôl ati; gwaith caled ar brydiau.”

Byddwn yn cael cyfarfod ar ap cyfarfodydd Zoom y tro
nesaf i drafod Wai gan Mari Emlyn (Y Lolfa, £8.99).

Cysylltwch ag Elin Meek elin.angharad.meek@gmail.com
os ydych chi eisiau ymuno â ni.

Lôn Goed Townhill

A phawb yn cael ei gyfyngu gan Lywodraeth
Cymru i fynd allan unwaith y dydd yn unig, mae
modd mynd i gerdded yn lleol.

Un lle cymharol anhysbys yw'r lôn goed islaw
Heol Pantycelyn. Mae modd mynd iddi ar
droed, ychydig y tu hwnt i'r hen goleg. Mae
clychau'r gog yn llu, a golygfeydd braf dros y
môr, wrth gwrs.

'I lan na thref nid arwain ddim' ond nid yw
hynny'n ofid yng nghyfnod y cofid.



Wythnos Cymorth Cristnogol ar lein

Mewn ychydig wythnosau, mae pandemig y Coronafirws wedi creu newid rhyfeddol yn ein cymdeithas.

Mae'r haint wedi effeithio pob rhan o fywyd. Daeth â dioddefaint ac ansicrwydd i gymaint, yma a thramor, gan wthio'i hun i flaen ein meddwl, ein sgysiau a'n gweddïau. Ac rydan ni i gyd yn gorfod addasu o'i oherwydd.

Mae eglwysi Cymru hefyd wedi addasu, wrth iddynt gael eu cau allan o'u hadeiladu. Ond mae nifer wedi ymateb i'r her a bellach ceir gwledd o oedfaon a myfyrdodau ar lein i'n

helpu i barhau i addoli.

Yn yr un ffordd, mae Cymorth Cristnogol hefyd yn gorfod addasu. Am y tro cyntaf ers degawdau lawer, ni allwn gynnal Wythnos Cymorth Cristnogol arferol ym mis Mai eleni. Ond tydi hynny ddim yn golygu ein bod am wneud dim.

Bydd cyfle i gynnal y gweithgareddau arferol yn yr hydref, ond mae cyfle i ymuno mewn gweithgareddau ar lein ym mis Mai. Mae Trefn Gwasanaeth, Gweddïau a Nodiadau Pregeth i gyd yn barod ar ein gwefan.

Gallwch eu defnyddio ar eich cyfrifiadur neu ddyfais, neu eu hargraffu ar bapur adref.

I'r eglwysi hynny sy'n paratoi oedfaon ar lein pob Sul i'w haelodau, beth am ddefnyddio'r

Trefn Gwasanaeth arbennig sy wedi ei pharatoi ar gyfer Sul 10

Mai? Mae'n troi o

amgylch yr arfer pwysig o olchi dwylo.

Yn ychwanegol bydd gennym ddefosiwn dyddiol ar fidio ar ein cyfryngau cymdeithasol a chwis ar Facebook i Gymru gyfan ymuno ynddo! A does dim yn eich atal i greu eich syniadau codi arian ar

lein eich hun. Byddem wrth ein **bodd cael dathlu'ch syniadau** creadigol.

Meddai Cynan Llwyd, Pennaeth Cymorth Cristnogol Cymru dros dro, **'Mae wedi bod yn wych derbyn** negeseuon cefnogol gan ein cefnogwyr tuag at ein chwiorydd **a'n brodyr dramor, a phobl yn gofyn** sut allen nhw barhau i gefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol mewn cyfnod mor anodd.

'Rwy'n gobeithio'n fawr y byddwch yn gallu ymuno yng ngweithgarwch yr Wythnos ar lein ym mis Mai, wrth inni gynnig adnoddau arbennig i'ch helpu i weddio a chodi arian dros y rhai a effeithir gan dlodi.

'Nid yw cariad yn darford byth.

Mae'r Coronafirws yn ein heffeithio i gyd. Ond mae cariad yn ein huno i gyd. Gadewch inni i gyd uno dros Wythnos Cymorth Cristnogol a sefyll mewn undod dros y mwyaf **bregus yn ein byd.'**

Cewch hyd i'r wybodaeth

ddiweddaraf a'r adnoddau ar ein

gwefan - [https://](https://www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/coronafirws)

www.christianaid.org.uk/get-involved-locally/wales/coronafirws



MARW GERALLT DAVIES

Roedd yn drist clywed am farw'r parafeddyg lleol Gerallt Davies MBE ar ôl profi'n positif am Goronafirws, ac yntau ond yn 51 oed.

Roedd Gerallt yn ffigwr adnabyddus ym Mhontarddulais, yn fab i'r Cynghorydd Eifion Davies a'i wraig.

Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gyfun Ystalyfera, a bu'n gwirfoddoli gyda Ambiwllans St John o'i blentydod.

Roedd yn barafeddyg Ambiwllans Cymru yng Ngorsaf Cwmbwrla yn Abertawe ac yn aelod gwerthfawr iawn o Grŵp Cynghori Diogelwch Stadiwm y Liberty. Mae ei golled yn ergyd enbyd i'w gymuned ac i'r clwb, y gwasanaethau meddygol, ei deulu a'i ffrindiau.

Roedd yn uchel ei barch yn Stadiwm Liberty ar ddyddiau gêm yn ei rôl yn cydlynu tîm Parafeddygon y dydd.

Chwaraeodd ran enfawr ochr yn ochr â staff y clwb wrth ddatblygu a chynnal a chadw'r protocolau meddygol sydd ar waith yn y stadiwm sy'n gweithredu ar bob



digwyddiad chwaraeon a cherddoriaeth.

Fe wnaeth Gerallt, mewn partneriaeth â Chomisïynydd Heddlu a Throsedd De Cymru, hefyd helpu i sefydlu Pwynt Cymorth Abertawe yn 2014 a oedd yn darparu

gofal i'r rhai mewn angen yng nghanol dinas Abertawe.

Mae'r gwasanaeth hwn wedi trin mwy na 3,500 o bobl ac wedi arbed cannoedd rhag gorfod mynd i'r ysbyty. **Derbyniwyd hyn yn wasanaeth o 'safon au'r ac enillodd** glod ar draws y DU.

Enillodd ei waith fel swyddog gweithrediadau cenedlaethol gyda St Johns Cymru MBE iddo yn 2019 am ei wasanaethau i ddarparu cymorth cyntaf yng Nghymru.

Arweiniodd Adran Pontarddulais o Ambiwllans St John am ugain mlynedd, gan gynyddu aelodaeth yr adran gan 150 o aelodau. Llwyddodd i gael cyllid lotri ar gyfer adeiladu neuadd gymuned bwrpasol. Yn 2004 ymunodd Gerallt â thîm Gorllewin Morgannwg a dod yn Gomisiynydd Sir. O

dan ei arweiniad, daeth St. John yn brif ddarparwr gwasanaeth meddygol mewn **mwy na 600 o ddigwyddiadau'r flwyddyn**, gan gynnwys digwyddiadau fel Gêm Gwpan UEFA, Sioe Awyr Cymru, Hanner Marathon Caerdydd digwyddiadau yn **stadiymau'r Liberty a'r Principality.**

Talwyd teyrngedau gan rai fel Gwasanaeth Ambiwllans Cymru, St Johns, Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, yr Heddlu, cydweithwyr, ffrindiau a theulu. Mae dau fab ar ei ô, Jonathan a Daniel.

Lansiad Y Wennol Newydd

Mae cylchlythyr newydd wedi cael ei **lansio yma yn Abertawe o'r enw Y** Wennol Newydd. Pwrpas y cylchlythyr yr cyhoeddi straeon mae dysgwyr wedi ysgrifennu naill fel rhan o waith cartref neu newydd sbon. Croeso mawr i Gymry Gymraeg gyfrannu hefyd. Mae hyn yn rhoi cyfle i bobl cael straeon i ddarllen **pob wythnos a hefyd, os yw'r awen yn** taro, i gyfrannu hefyd.

Dowch, cawn ni hwyl ac, wrth gael hwyl, **yn dawel bach bydden ni'n dysgu.** **Darllenwch y rhifyn gyntaf ar y pdf efo'r e-** bost yma ac, os oes gennych stori i rannu anfonwch hi ataf fi, Rob Evans ar bobwennol@ntlworld.com

ABERTAWE—Y DDINAS RHWNG MÔR AC AWYR



Abertawe fel ynys drofannol, ar fore braf o Ebrill

GAIR O'R ARIANNIN

Heddiw yw diwrnod 46 mewn 'lockdown' yn Yr Ariannin yn Nhalaiith Chubut. Dim fel hyn wnes i ddychmygu fy mlwyddyn o weithio yma yn yr Ariannin yn datblygu'r laith Gymraeg.

Mae rheolau'r Ariannin bach yn wahanol i Gymru. Dydyn ni ddim yn gallu mynd am dro. Yr unig le rydym yn gallu mynd yw i'r siop i brynu bwyd ond ar ddiwrnodau penodol. Dw i'n gallu mynd ar Ddydd Llun, Dydd Mercher a Dydd Gwener gan fod rhif olaf fy mhasbort yn eilrif. Mae agwisgo mwgwd yn



cynnal gwersi yn fyw ar 'Zoom'.

Rydyn ni hefyd yn trefnu gweithgareddau cymdeithasu fel cwis, paned a sgwrs a noson lawen sy'n hynod o lwyddiannus.

Os ewch i Menter Patagonia ar grŵp 'Facebook' gallwch weld yr holl weithgareddau sydd yn mynd yn eu blaen.

Dw i'n teimlo'n ddiogel iawn yma yn yr Ariannin. Dw i'n teimlo fel bod mam-gu newydd gyda fi allan yma sef brenhines y Wladfa, Luned Gonzales.

Mae'r Archentwyr yn gefnogol iawn yma, yn sicrhau fy mod wedi ymgartrefi yn fy nghartref newydd ac yn cynnig cymorth pan fod angen yn ystod y pandemig yma

angenrheidiol. Bob nos am 8 o'r gloch mae cerbyd tân yn drifo heibio

gydag uwch-seinydd yn dweud yn Sbaeneg i bawb aros yn eu cartrefi ac yn cyhoeddi'r newidiadau diweddar. Yn ogystal â hyn maen nhw wedi dechrau glanhau'r strydoedd gyda chlorin a dŵr. Gweithio'n effeithiol iawn i atal y lledaenu.

Er gwaethaf y sefyllfa yma rydyn ni'n parhau i ddatblygu'r laith gan ddefnyddio'r we. Dw i'n dysgu plant a phobl ifanc ar 'Google Classrooms' a hefyd yn

ANWEN HARRIS



Tawelwch stryd Michael D Jones yn ystod y caethiwo



Cyn y caethiwo yn joio cymdeithasu a blasu bwydydd yr Ariannin gyda ffrindiau newydd Ariela a Anjelica sydd yn siaradwyr Cymraeg Y Gaiman



i achos annibyniaeth i Gymru.

Ar ôl araith gofiadwy fe draddodwyd englynion arbennig o deyrnged gan fab arall o Went, y Prifardd Robot Powell, Treforys. A dyma nhw, wedi'u cyhoeddi'n llawn am y tro cyntaf.

Canu'r hen Gymru i gyd - yn ei waed,
Ond rhyngwladwr hefyd,
A daw o'i dramwy diwyd
Air ei bobl i gaeau'r byd.

Ein derwen uwch na'r deri, - arweinydd
Trwy dir anodd inni;
I danio'n hen aelwyd ni
Ein gwlad sy'n galw Eddie!

Robot Powell

LLUN: Robot Powell yn traddodi'r englynion - mae Eddie Butler yn eistedd ar y dde iddo.

Dathlu yng Nghwmni Eddie Butler

Ychydig o ddyddiau cyn dechrau cyfnod clo Covid-19, trefnodd Plaid Cymru ginio **Gŵyl Dewi hynod lwyddiannus yng ngwesty Norton House, Y Mwmbwls.**

Y prif westai ar y noson oedd y cyn-gapten rygbi a sylwebydd adnabyddus Eddie Butler a swynodd ei gynulleidfa gyda sylwadau ar fyd rygbi a'i gefnogaeth

'Eddie Butler'

Gwelsom eilunod yn codi - o fawn
Sir Fynwy a'i gwyrddni,
Ond y gŵr hwn urddwn ni,
Ein derwen uwch na'r deri.

Parhad o dudalen 1 annibynnol, cymunedol, a chyfle hefyd i rannu eich dawn gydag eraill!

dudalen "Gweithgareddau Cymraeg Cartref" ar Facebook i weld beth sydd ar gael!

Yn ogystal â'n cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan, mae'n bosib fwynhau ac ymuno mewn gweithgareddau Mentrau Iaith eraill Cymru. Ewch i wefan Mentrau Iaith Cymru (mentrauiath.cymru) neu ei

Yn ystod y cyfnod hwn o ymbellhau cymdeithasol mae'n holl bwysig i ni fel siaradwyr a dysgwyr Cymraeg aros mewn cyswilt gyda'n gilydd. Tra bod ein hysgolion, ein canolfannau a'n capeli ac eglwysi ar gau rhaid i'r gymuned Gymraeg ymateb yn greadigol. Ni fu argyfyngau mawrion yn llesol i'r iaith yn hanesyddol. Dim ond trwy gydweithio mewn ffyrdd amgen y gallwn atal hynny rhag digwydd eto. Dewch i ni fwrw nôl yn erbyn yr unigedd a'r anobaith, ac yn y môr o gyfryngau Saesneg cawn greu

Pôs Stumlun Abertawe

- | | |
|---------------------|----------------------|
| 1 🇬🇧 (-c) 🍷 🍷 🍷 | 14 🌲 🌲 🌲 🌲 🌲 🌲 🌲 🌲 |
| 2 🏠 (-n) 🏠 (-b) 🍷 | 15 🌲 (+) 🏠 🏠 |
| 3 🍷 🍷 🏠 (-n) | 16 Y 🍷 🍷 🍷 s |
| 4 🍷 ? 🍷 | 17 🏠 🍷 (-L) |
| 5 0 0 7 (-d) 🍷 (-L) | 18 🍷 🍷 |
| 6 🍷 🍷 n 🍷 | 19 🏠 🍷 |
| 7 🍷 SO 🎵 🎵 🎵 | 20 🍷 y 🍷 |
| 8 ✕ ? | 21 🇬🇧 🌈 |
| 9 🍷 🍷 | 22 🍷 🍷 (-w) SO 🎵 🎵 🎵 |
| 10 🏠 (-n) 🍷 | 23 🍷 y 🍷 |
| 11 🍷 🍷 | 24 🇫🇷 🌍 |
| 12 🍷 🍷 🍷 🏠 | 25 🍷 n 🍷 |
| 13 🌞 🍷 (-gof) | |

Gan na fydd noson Tyrfe Tawe am fis neu ddau, rhowch gynnig ar ein pôs stumlun! Pa mor dda ydych chi'n adnabod yr ardal? Anfonwch eich atebion at catrin@tyrfe.com
Bydd taleb £10 Sioep Tŷ Tawe i'r buddugol (cyntaf cywir o hel).



O'r gorffennol: Rysait diod yn Y Llanw, Cylchgrawn Cymraeg Abertawe, Gorffennaf 1950

RHYWBETH AR GYFER Y TYWYDD TWYM

A'r tywydd twym wedi cyrraedd, efallai y carai darllenwyr 'Y Llanw' gael gwybod sut i wneud pop blasus iawn. Wel, dyma'r ffordd:

- Llawn sosban chwart o ddail Dant y Llyew
- Dau ben pren cyrains
- Dau ben pren mafon
- Ychydig o ddanadl poethion
- Llawn cwpan brecwast o siwgr
- ½ owns o furum
- Galwyn o ddwr.

Golcher y dail yn dda. Yna rhaid berwi'r cyfan am ugain munud. Dylid eu hidlo a doddi'r gweddill mewn padell gyda'r siwgr, a'i droi nes todda'r siwgr. Yna ychwaneger dwr oer nes y ceir galwyn. Taeneller y burum ar ei wyneb a gadawer dros nos. Doder y cyfan mewn costrelau bore trannoeth.

* Nid yw' pren mafon a'r dadal poethion yn hollol angenrheidiol.



Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd
Urdd Peace and Goodwill Message
18/05/2020

Stopio'r Cloc ac Ailddechrau
Stop the Clock and Start Again

@Urddgobaithcymru @Urdd



Amser Canu
Rhyme Time

Amser canu cymraeg / plant 0-5
Welsh rhyme time for children aged 0-5

Yn Fyw/Live


Dydd Iau/Thursdays
11:00am-11:30am

ar/on facebook

Carys Menter Iaith Abertawe

Am Fanylion Pellach/For further information
carys@menterabertawe.cymru

Rhif Cwmni: 06693822




Neges Heddwch ac Ewyllys Da yr Urdd, 18 Mai 2020 – Stopio'r Cloc ac Ailddechrau

Thema neges eleni yw dyhead pobl ifanc i weld y byd yn gwranddo ac yn dysgu o argyfwng feirws Covid-19. (urdd.cymru/heddwch)

Mae'r Neges Heddwch ac Ewyllys Da yn unigryw i Gymru, ac wedi ei danfon yn flynyddol ers 98 o flynyddoedd - **dyma'r unig neges o'i fath yn y byd.**

Gofynnaf am eich cefnogaeth i helpu pobl ifanc Cymru ar y 18fed o Fai i wneud hon y neges fwyaf mewn hanes.

Bydd y neges yn cael ei chyhoeddi o gyfrifon cymdeithasol Urdd Gobaith Cymru

ar ddydd Llun y 18fed o Fai ac rydym yn gofyn i chi wneud o leiaf 1 o'r 3 peth canlynol:

Aildrydarwch / postio y neges ar eich cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ar yr 18fed o Fai gyda

Emoji baner eich gwlad chi / Emoji y byd / Eich hoff Emoji ac #heddwch2020

Paratowch ymateb i'n neges ni - gall hyn fod yn lun/geiriad /gair o gefnogaeth /lluniau / fideo /can gan ddefnyddio #heddwch2020 neu ei ebostio at heddwch@urdd.org

Anogwch eich ffrindiau a chysylltiadau ar draws y byd i ymateb

Helpwch yr Urdd

Helpwch Gymru

Helpwch ein Pobl ifanc

i gyrraedd 15 miliwn o bobl mewn 50 o wledydd ar draws y byd yn 2020!

Eisiau mwy o fanylion e-bostiwch - heddwch@urdd.org



Trai a llanw

Mae'r gwahaniaeth rhwng y trai a'r llanw'n drawiadol ar adegau.

Felly yr oedd ynnechrau mis Ebrill, pan oedd modd cerdded ar y tywod bron hanner ffordd i'r Mwmbwls o draeth Abertawe.

ANGEN SIARAD? NEED TO TALK?

Cysylltwch a ni/Contact us

Facebook: Menter Iaith Abertawe
Carys: Carys Menter Iaith Abertawe
Anys: Anys Menter Iaith Abertawe
Caradog: Siop Ty Tawe

E-bost/E-mail
Carys: carys@menterabertawe.cymru
Dean: Dean@menterabertawe.cymru
Anys: dottolygu@menterabertawe.cymru
Caradog: Siop@siopitytawe.co.uk

Ar y ffon/On the phone
075 462 12364
NI YMA! WE'RE HERE



Mae Wilia eisiau clywed gennych chi!

Anfonwch eich newyddion, straeon a lluniau at:

wilia@hotmail.co.uk



cefnogwch y Gymraeg, cefnogwch siopau bychain

Mae'n bosib i brynu ar-lein ond dewis rhoi'r comisiwn i Siop Ty Tawe

Archebwch ar-lein o gwailes.com ac enwebwch eich siop llyfrau leol!

